

Rebecca Evans AS,

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet

4 Gorffennaf 2024

Annwyl Rebecca,

Newidiadau arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb, a gweithdrefnau Cyllideb cysylltiedig

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 15 Ionawr 2024 a oedd yn ymateb i gynigion ar gyfer newid Protocol Proses y Gyllideb (y Protocol), y gwnaethom eu cyflwyno ichi ar 11 Rhagfyr 2023.

Rwy'n falch ein bod yn parhau i weithio tuag at nod cyffredin, a'ch bod chi a'ch swyddogion wedi ymrwymo i ymgysylltu'n adeiladol ar y materion hyn.

Fel y dywedwch yn eich llythyr, mae trafodaethau rhwng swyddogion ar y materion hyn yn mynd rhagddynt, gyda golwg ar ddod i gytundeb yn fuan. Fodd bynnag, yn y cyfamser, roeddwn am dynnu eich sylw at faterion ychwanegol a godwyd gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (CAU), yn ymwneud â'r Protocol a materion cyllidebol y Senedd yn fwy cyffredinol.

Newidiadau posibl i Brotocol Proses y Gyllideb

Fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2023, ymgynghorodd y Pwyllgor â phob CAU ar ein newidiadau arfaethedig i'r Protocol ar 23 Chwefror 2024, a chafodd ymatebion gan Archwilio Cymru a Chomisiwn y Senedd.

Yn ei ymateb, awgrymodd Archwilio Cymru y newidiadau a ganlyn i'r Protocol:

"Mae paragraff 17 o'r Protocol yn dweud— "Gyda hyn mewn golwg, byddai'r Pwyllgor Cyllid yn rhagweld gweld ar yr adeg y cyhoeddir y gyllideb amlinellol... dangosiad o sut mae'r rhaglen ar gyfer Deddf Llywodraeth a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb." Gan mai'r ddyletswydd i osod amcanion llesiant yw'r prif fecanwaith o fewn Deddf 2015 ar gyfer rhoi egwyddorion ar waith, a chan nad yw'r Rhaglen Lywodraethu ei hun yn ofyniad statudol fel y cyfryw, credwn y byddai'n ddefnyddiol diwygio'r



paragraff hwn er mwyn cyfeirio at esboniad o sut mae amcanion llesiant Llywodraeth Cymru wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

Yn yr un modd, credwn y byddai cyfeiriad at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol ym mharagraff 21. 3. Ym mharagraff 33, gallai fod yn ddefnyddiol i eglurder adolygu'r frawddeg olaf i gyfeirio'n benodol at Lywodraeth Cymru gan ddarparu cymodi â newidiadau ar lefel BEL. 4. Er bod y newidiadau i baragraff 40 yn ymddangos yn ddefnyddiol, yn enwedig amnewid "ymgymeriadau felly i barhau" gydag "ewyllys" yn y frawddeg olaf ond un, ymddengys bod y croesgyfeiriad yn y frawddeg flaenorol yn fwy priodol pe bai'n cael ei rhoi fel paragraff 34 yn hytrach na pharagraff 26. Yn yr un modd, byddai'n ymddangos bod "arian uniongyrchol" yn y frawddeg olaf ond un yn well fel un "wedi'i hariannu'n uniongyrchol".

Er hwylustod, mae fersiynau wedi'u tracio o'r newidiadau hyn wedi'u cynnwys fel atodiad i'r llythyr hwn, ac maent yn ychwanegol at y newidiadau a gyflwynwyd eisoes yn ein llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2023.

Ni awgrymodd y Comisiwn unrhyw newidiadau penodol i'r Protocol yn ei ymateb, ond cyfeiriodd at ddau fater allweddol a amlinellir isod.

Newidiadau i weithdrefnau cyllidebol a gynigir gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Yn ein llythyr at y CAU dyddiedig 4 Mai 2023, gofynnwyd am farn ar y gyllideb atodol/proses amcangyfrif ac a yw'r trefniadau presennol yn darparu digon o hyblygrwydd neu a oes angen eu cryfhau.

Yn eu hymatebion cychwynnol, gofynnodd y CAU am newidiadau bach iawn, a rhai gweinyddol yn bennaf. Fodd bynnag, yng ngoleuni problemau a gafwyd yn dilyn cais atodol a wnaed gan Archwilio Cymru, i ddarparu ar gyfer y taliad Costau Byw i staff ym mis Awst 2023 (a dynnwyd yn ôl yn ddiweddarach), fe wnaethom ysgrifennu eto at y CAU ar 18 Hydref 2023, yn gofyn am farn bellach.

Yn eu hymatebion, gwnaeth Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), fel ei gilydd, gefnogi newid y Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Lywodraeth Cymru ymgorffori ceisiadau gan CAU am gyllid atodol mewn cynnig y gyllideb atodol, os caiff ei gefnogi gan y Pwyllgor Cyllid.

Yn ei ymateb, dywedodd Comisiwn y Senedd: "Mae'r taliad costau byw a wnaed i staff y Comisiwn yn y flwyddyn ariannol hon wedi amlygu rhai problemau gyda phroses y gyllideb atodol y gallai fod yn ddefnyddiol mynd i'r afael â hwy", gan ychwanegu:

"Mae'r Comisiwn yn derbyn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru yn unig gael yr hawl i gyflwyno cynigion cyllideb atodol. Byddai'n ddefnyddiol, fodd bynnag, i

ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i ffurfioli'r broses a ddisgrifir uchod. Felly, pan fyddai dyddiad cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru yn hysbys, y byddai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, pe bai angen amrywio eu cyllidebau y cytunwyd arnynt, yn cyflwyno eu memorandwm esboniadol i'r Pwyllgor cyfrifol. Byddai hyn yn digwydd cyn i'r cynnig gael ei gyflwyno, er mwyn caniatáu amser i bwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad a gwneud argymhellion ynghylch y ceisiadau am wybodaeth ychwanegol a wneir gan y Corff/Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol."

Yn ôl y Comisiwn, y nod o wneud hynny fyddai cael gwared ar unrhyw ganfyddiad y gall Llywodraeth Cymru "rwystro" ceisiadau gan CAU, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Ar bwynt ar wahân, galwodd y Comisiwn, hefyd am "ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y gellir symud amserlen cyllideb y Comisiwn i ddyddiad diweddarach". Awgrymodd "newid bach i Reol Sefydlog 20.20 i ehangu'r amgylchiadau lle gallai'r Comisiwn gynnig amserlen wahanol i'r un a nodir yn y Rheolau Sefydlog". Byddai hyn yn caniatáu i'r Comisiwn ofyn am hyblygrwydd pe bai datganiad hydref y DU yn digwydd yn hwyr, neu os bydd cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cael ei ohirio, fel sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig hyn ac yn gofyn ichi eu hystyried, yn ychwanegol at y rheini a amlinellwyd eisoes yn fy llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2023, fel y gallwn symud y materion hyn ymlaen gyda'r bwriad o ddod i gasgliad boddhaol.

Fel y crybwyllwyd yn yr ymateb ar y cyd i'ch llythyr ar yr adolygiad statudol o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022, mae'r Pwyllgor wedi ymrwmo i ddatblygu proses gyllidebol sy'n gweddu i ddeddfwrfa fodern, a gobeithio bod y cynigion hyn yn gam i'r cyfeiriad hwnnw.

Bwriad y Pwyllgor yw llunio adroddiad ar y materion hyn er mwyn galluogi'r Senedd i ystyried a phleidleisio ar newidiadau i'r Protocol a gweithdrefnau cysylltiedig yn gynnar yn 2025, mewn da bryd cyn etholiad Senedd 2026.

Mae'r llythyr hwn wedi'i gopïo i'r CAU a Phwyllgor y Llywydd o ystyried eu cyfrifoldeb am oruchwylio'r Comisiwn Etholiadol, er gwybodaeth.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Newidiadau arfaethedig	Rhesymau dros newid, yn ôl Archwilio Cymru
Newidiadau i baragraff 17 "17 Gan gofio hyn, mae'r Pwyllgor Cyllid yn rhagweld y canlynol adeg cyhoeddi'r gyllideb amlinellol: • y rhesymeg dros lefelau trethiant; • amrywiaeth o ystadegau a dadansoddiadau economaidd perthnasol ar gyfer Cymru; • <u>esboniad o'r modd y mae amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru</u> tystiolaeth o sut y mae'r Rhaglen Lywodraethu a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.	Mae paragraff 17 o'r Protocol yn dweud— "Gyda hyn mewn golwg, byddai'r Pwyllgor Cyllid yn rhagweld gweld ar yr adeg y cyhoeddir y gyllideb amlinellol... dangosiad o sut mae'r rhaglen ar gyfer Deddf Llywodraeth a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb." Gan mai'r ddyletswydd i osod amcanion Llesiant yw'r prif fecanwaith o fewn Deddf 2015 ar gyfer rhoi egwyddorion ar waith, a chan nad yw'r Rhaglen Lywodraethu ei hun yn ofyniad statudol fel y cyfryw, credwn y byddai'n ddefnyddiol diwygio'r paragraff hwn er mwyn cyfeirio at esboniad o sut mae amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.
Newidiadau i baragraff 21 "21. Bydd pob portffolio yn anelu at fod yn gyson a darparu gwybodaeth i gefnogi'r penderfyniadau sy'n sail i'r cynigion. Gallai hyn gynnwys: • sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â blaenoriaethau, <u>amcanion Llesiant</u> a chanlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru; • asesiadau o effaith y cynigion yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol a pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru fel cydraddoldeb, y Gymraeg, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;	Yn yr un modd, credwn y byddai cyfeiriad at amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol ym mharagraff 21.



• esboniad o'r newidiadau sylweddol i benawdau'r gyllideb o'r cynlluniau blaenorol a gyhoeddwyd."	
Newidiadau i baragraff 33 "33. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Cynnig Cyllidebol Blynnyddol yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Er mwyn cefnogi'r Cynnig Cyllidebol Blynnyddol, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno i ddarparu ei chyllideb derfynol, ar yr un pryd â gosod y Cynnig Cyllidebol Blynnyddol, yn cynnwys cynlluniau gwariant ac unrhyw newidiadau i'r cynlluniau ariannu a gynigir yn y gyllideb amlinellol. Bydd hefyd yn cysoni â newidiadau ar lefel BEL (neu gyfwerth) yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru."	Ym mharagraff 33, gallai fod yn ddefnyddiol i eglurder adolygu'r frawddeg olaf i gyfeirio'n benodol at Lywodraeth Cymru gan ddarparu cymodi â newidiadau ar lefel BEL.
Newidiadau i Baragraff 40 (newidiadau ychwanegol i'r rheini a gynigiwyd eisoes gan y Pwyllgor wedi'u cynnwys yn llwyd) "Mae unrhyw newid i'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig cyllideb atodol. O dan y trefniadau diwygiedig, mae hyn yn parhau i fod yn wir gan fod newidiadau i'r cynnig cyllidebol yn berthnasol i Lywodraeth Cymru yn unig. Fel y nodwyd ym mharagraff 34, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno cyllidebau atodol yr un mor aml ag o'r blaen dwy gyllideb atodol ym mhob blwyddyn ariannol. Bydd Llywodraeth Cymru felly'n ymrwymo i barhau i gysylltu'n cysylltu'n rheolaidd â'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol ac i geisio yn ceisio bodloni eu gofynion ariannol o fewn y flwyddyn drwy broses y gyllideb atodol. Bydd unrhyw gynnig i amrywio pa mor aml y cyflwynir cyllidebau atodol yn ystyried gofynion cyrff a ariennir yn uniongyrchol."	Er bod y newidiadau i baragraff 40 yn ymddangos yn ddefnyddiol, yn enwedig amnewid "ymgymeriadau felly i barhau" gydag "ewyllys" yn y frawddeg olaf ond un, ymddengys bod y croesgyfeiriad yn y frawddeg flaenorol yn fwy priodol pe bai'n cael ei rhoi fel paragraff 34 yn hytrach na pharagraff 26. Yn yr un modd, byddai'n ymddangos bod "arian uniongyrchol" yn y frawddeg olaf ond un yn well fel un "wedi'i hariannu'n uniongyrchol".

